**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 25**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 24th HYDREF 2000

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 1.55pm**

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i'r Prif Weinidog Cymru** (30 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Deddf Addysg 1997: Cynnig gan Brian Hancock i gyflwyno Is-ddeddwriaeth y Cynulliad**
Mae'r Cynulliad yn ymroi i gyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ddrafft o dan adran 46(3) o Ddeddf Addysg 1997. Yr amcan yw: darparu i'w gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu sefydliadau o fewn y sector addysg bellach, a phrifathrawon neu benaethiaid eraill sefydliadau o'r fath, yn sicrhau bod rhaglen o addysg gyrfaoedd yn cael ei darparu ar gyfer pob myfyriwr 16-19 oed sy'n mynychu sefydliadau o'r fath.

Bydd y rheoliad hwn yn berthnasol i Gymru gyfan.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Brian Hancock (Islwyn);**
Yn y pwynt bwled, dileer "pob myfyriwr 16-19 oed" a rhoi "pob myfyriwr llawn amser" yn ei le.

**Gwelliant 2 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**
Yn lle "Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant", rhodder "Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes" .

Rhoi "46(1) a" cyn "46(3)".

Ychwaneger pwynt bwled cyntaf newydd:

> Sicrhau bod rhaglen addysg gyrfaoedd yn cael ei darparu ar gyfer yr holl ddisgyblion 16-19 oed sy'n mynychu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig mewn ysbytai) ac unedau cyfeirio disgyblion.

Ychwaneger ar ôl y pwynt bwled gwreiddiol:

> Mewn sefydliadau o fewn y sector addysg bellach, dylid cyflawni'r amcan hwnnw drwy ei gwneud yn ddyletswydd ar gyrff llywodraethu a phrifathrawon neu benaethiaid eraill y sefydliadau hynny i ddarparu rhaglen o'r fath.
>
> Mewn sefydliadau addysgol eraill, dylid cyflawni'r amcan hwnnw mewn ysgolion drwy osod dyletswydd o'r fath ar y cyrff llywodraethu a'r prifathrawon, ac mewn unedau cyfeirio disgyblion, drwy osod dyletswydd o'r fath ar yr awdurdodau addysg lleol sy'n cynnal yr unedau, a'r athrawon sy'n gyfrifol amdanynt.

**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Blaid Geidwadol**
Mae'r Cynulliad yn gresynu at fethiant y weinyddiaeth a arweinir gan Lafur i gydnabod anghenion a buddiannau Cymru, y tu allan i Forgannwg, fel y caiff ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad y Cabinet newydd a gyhoeddwyd ar 16 Hydref 2000.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**
Ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger

'Yn cydnabod y byddai adleoli rhai adrannau o'r llywodraeth a phencadlysoedd asiantaethau cyhoeddus eraill y tu allan i Gaerdydd yn fodd o wneud iawn am y methiant hwn, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried hyn o ddifrif yn ystod y ddwy flynedd nesaf.'

**Cyflwyno Deddf Safonau Gofal 2000**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu cyflwyno Deddf Safonau Gofal 2000 (ar gael ar wefan Gwasg ei Mawrhydi www.HMSO.gov.uk) a'r swyddogaethau newydd y darparwyd ar eu cyfer:

I. Y Cynulliad Cenedlaethol i weithredu fel yr unig reoleiddiwr yng Nghymru ar gyfer gofal cymdeithasol, gwarchod plant a gofal dydd ar gyfer plant o dan 8 oed a gofal iechyd aciwt y sector annibynnol;
I. Sefydlu Cyngor Gofal ar gyfer Cymru i reoleiddio a chodi safonau ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru; a
II. Sefydlu Comisiynydd Plant ar gyfer Cymru.

A bod y Cynulliad yn nodi bod rhaglen o is-ddeddfwriaethau ar gyfer eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu cyflwyno dros y 12 mis nesaf i roi'r ystod o bwerau newydd y mae'r Ddeddf yn eu darparu mewn grym yn ymarferol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

'Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi mai dim ond pwerau statudol cyfyngedig a chychwynnol a roddir i'r Comisiynydd Plant gan ddarpariaethau'r Ddeddf Safonau Gofal'.

**Gwelliant 2 - Helen Mary Jones (Llanelli);**
Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig

'Mae'r Cynulliad yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyflwyno cais i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, er mwyn iddo sicrhau y bydd Araith nesaf y Frenhines yn cynnwys mesur sy'n sefyll ar ei draed ei hun i ddarparu pwerau statudol llawn i Gomisiynydd Plant Cymru yn unol â pholisi'r Cynulliad Cenedlaethol.'

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 26 Hydref 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**